# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Tachwedd 2017

Amser: 08.30 – 08.44

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Roedd Julie James unwaith eto yn dirprwyo ar ran Jane Hutt, oherwydd ni wnaed dim newidiadau o ran aelodaeth yr wythnos diwethaf.  Byddai cynnig yn cael ei gyflwyno'n ddiweddarach heddiw bod Julie James yn cymryd lle Jane Hutt fel Aelod o'r Pwyllgor Busnes, a byddai hyn ar agenda'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Byddai'r Cyfarfod Llawn heddiw yn dechrau gyda theyrngedau i Carl Sargeant AC. Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes y byddai hi'n dechrau'r sesiwn ac yna'n cyhoeddi munud o dawelwch, a gaiff ei ddechrau a'i ddiweddu gan y gloch; bydd llun o Carl yn cael ei arddangos ar y sgriniau drwy gydol y sesiwn. Dywedodd y Llywydd y byddai'n galw Arweinwyr y Pleidiau, ac yna'r Aelodau a oedd â'r cysylltiad agosaf â Carl, ac eraill wedyn os bydd amser yn caniatáu. Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod yn bwriadu atal y Cyfarfod Llawn am hyd at 30 munud ar ôl yr eitem hon, ond y byddai'n ceisio parhau am 2pm, hyd yn oes os bydd y teyrngedau'n parhau am amser hwy. Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes hefyd y byddai aelodau o deulu Carl yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus i glywed y teyrngedau.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes y byddai hi'n gwahodd enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn. Pe bai cystadleuaeth, byddai'r bleidlais yn digwydd fel pleidlais gyfrinachol rhwng 2.00 a 4.00 a byddai'r canlyniad yn cael ei gyhoeddi cyn y Cyfnod Pleidleisio.

- Bydd cynnig bod Julie James yn cymryd lle Jane Hutt fel Aelod o'r Pwyllgor Busnes yn cael ei ychwanegu at yr agenda dydd Mercher.
- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 22 Tachwedd 2017 -**

- ~~Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 29 Tachwedd*
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 29 Tachwedd*
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Y Seilwaith Digidol yng Nghymru (60 munud) – symudwyd o 15 Tachwedd
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud) – symudwyd o 15 Tachwedd
- Dadl Fer – Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru) – (30 munud) – symudwyd o 15 Tachwedd

**Dydd Mercher 29 Tachwedd 2017 -**

- ~~Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)~~ – *gohiriwyd tan 6 Rhagfyr*
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud) – symudwyd o 22 Tachwedd
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)~~

**Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2017 –**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud) – *symudwyd o 29 Tachwedd*
- Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Fynediad at Drafnidiaeth ar gyfer Pobl Anabl (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

# 4 Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

## 4.1 Amserlen cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymestyn y dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 gan y pwyllgorau, o 28 Tachwedd i 1 Rhagfyr. Cadarnhaodd Gweinidog Busnes y Llywodraeth y byddai'r ddadl yn cael ei chynnal ar 5 Rhagfyr, er mwyn caniatáu amser i gyflwyno Cynnig y Gyllideb Flynyddol cyn y Nadolig. Cytunodd y Rheolwyr Busnes y gallai pwyllgorau gyfarfod y tu allan i'w hamserau penodedig os bydd angen, er mwyn hwyluso'r gwaith o graffu ar y gyllideb o fewn y dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno adroddiad.